



PYSGODFA GOCOS Y TAIR AFON 2024/25

HYSBYSIAD CYHOEDDUS  
a gyhoeddwyd yn unol ag

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgodfeydd Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.

### CAU PYSGODFA GOCOS

**MAE GWEINIDOGION CYMRU YN HYSBYSU**, yn unol ag Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgodfeydd Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024, bydd y gwelyau cocos (*Cerastoderma edule*) yn yr ardal a ddiffinnir isod ("yr Ardal") **ar gau** at ddibenion casglu cocos ar 23 Rhagfyr 2024 hyd nes y clywir yn wahanol.

Oni bai iddo gael caniatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru ymlaen llaw, ni chaiff unrhyw un bysgota am gocos, eu symud ymaith, eu cymryd neu darfu arnynt, mewn unrhyw bysgodfa sydd wedi ei chau yn rhinwedd yr Hysbysiad hwn.

#### Yr Ardal

Yr Ardal sy'n cael ei chau gan yr Hysbysiad hwn yw ardal yn aberoedd Afonydd Taf, Tywi a Gwendraeth a elwir yn Aber y Tair Afon, sef yr holl ddyfroedd llanw yn Ardal cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a amgaeir gan linell a dynnir i gyfeiriad y dwyrain o Bwynt Ginst (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SN 332079) i Bwynt Pen Tywyn (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SN 357064). Y dyfroedd llanw yw'r terfynau hynny a ddiffiniwyd gan gyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru:


- Llinell a dynnir ar draws Afon Taf, rhwng Castell Lacharn a Black Scar.
- Llinell a dynnir ar draws Afon Tywi, i'r dwyrain cywir o gornel mwyaf de-ddwyreiniol Castell Llansteffan i'r lan gyferbyn.
- Llinell a dynnir ar draws pob afon neu nant sy'n llifo i aber Afon Gwendraeth, ar hyd ochr y môr y pontydd sy'n cludo'r rheilffordd rhwng Parc Gwyliau Bae Caerfyrddin a Thraeth RAF Pen-bre.

**Rhoddir yr hysbysiad hwn o dan awdurdod Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig un o Weinidogion Cymru.**

**Dyddiad yr hysbysiad: 23 Rhagfyr 2024**

## **Nodiadau:**

1. Gwaherddir unrhyw bysgota am gocos, at unrhyw ddiben a chan ddefnyddio unrhyw ddull, yn yr Ardal am y cyfnod a bennir uchod, oni bai y'i hawdurdodir gan Weinidogion Cymru yn unol ag Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgodfeydd Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.
2. Mae'r gwelyau'n cael eu cau er mwyn gwarchod cocos sy'n anaeddfed neu'n rhy fach ac er mwyn eu helpu i ddatblygu.
3. Mae'r Ardal ar gau ar hyn o bryd at ddibenion pysgota am gocos, eu symud ymaith, eu cymryd neu darfu arnynt hyd nes y clywir yn wahanol, yn unol â hysbysiad a wnaed o dan Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgodfeydd Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.
4. Dangosir yr Ardal, er gwybodaeth yn unig, ar y map isod gan ddefnyddio croeslinellau du.



## **RHAGOR O WYBODAETH**

I weld rhagor o hysbysiadu a chael rhagor o wybodaeth am gau'r gwelyau hyn, cysylltwch ag:

Is-adran y Môr a Physgodfeydd  
Llywodraeth Cymru  
Cyfres 3, Cedar Court,  
Parc Busnes Haven y Pennaeth,  
Aberdaugleddau  
Sir Benfro SA73 3LS

Ffôn:0300 025 3500 E-bost: [Pysgodfeydd@llyw.cymru](mailto:Pysgodfeydd@llyw.cymru)